Dear Minister,

We, the undersigned, write to you as farmers, business people, homeowners, local politicians and lovers of the landscape and wildlife of the Leadbrook Woods and Meadows area. We urge you not to destroy our businesses and livelihoods, and the countryside we love, by approving the construction of a huge new four-lane highway, which would go straight through this ancient and beautiful landscape in Flintshire, North Wales.

This enormous dual carriageway is by far the largest new highway proposal in the whole of Wales. It would destroy massive areas of our precious farmland, including an award-winning organic farm, sever our businesses, which are already suffering from the COVID pandemic, destroy our homes and communities and cause irreparable damage to our wildlife and landscape heritage. It would rip through ancient woodland and old flower-rich meadows, damage this historic landscape, and destroy viable farm holdings.

Your government's own estimates of the costs have risen from £210 million in 2016, to £242 million in 2017 and to £300 million in 2019, showing that the costs are spiralling out of control, at a time when Wales' economy is struggling with emerging from the COVID pandemic. At a cost of approximately £23 000 per metre, this would be a vast misdirection of funds, at a time when we are desperately short of nurses, doctors and agricultural support in Wales.

Your government is rightly concerned about sustainability, and passed a ground-breaking law on it. Sustainability is all about finding solutions to problems such as traffic congestion which don't destroy the environment, and we urge you to do just that in this case. The Future Generations Commissioner Ms Sophie Howe has expressed concern about the processes you have used to develop this road plan (WelTAG).

In stating on the 10th June this year in the plenary of the Welsh Parliament, that the government is "looking at the longer term recovery from coronavirus in a way that builds back a fairer, greener, more resilient economy", you rightly pointed out that things will not be the same in a post-COVID Wales, and that recovery must be green.

Pursuing this highway scheme would take no account of the likely large reduction in traffic because of changed work patterns after the coronavirus pandemic, with working from home for example remaining far higher than before. It also would not take into account the big changes which are afoot on the international scene from the 1st January next year, when changing trade arrangements between the UK and Ireland may well result in a further reduction in the need for a huge new dual carriageway in this area.

The increase in carbon emissions which would happen as a result of this highway constitute swimming against the tide of public opinion and your government's own policies, in an era when we are supposed to be taking serious steps at all levels to avoid catastrophic climate change.

We recognise that there are problems with congestion in this area, but we are equally confident that they could be addressed without massive new highway construction, using imaginative sustainable solutions that create a more resilient Wales.

Please rethink this damaging mega-scheme, and let us work together to create a sustainable and productive Flintshire and Wales.

Yours sincerely,

Annwyl Weinidog,

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn ysgrifennu atoch chi fel ffermwyr, pobl fusnes, perchnogion tai, gwleidyddion lleol a rhai sy'n caru tirwedd a bywyd gwyllt ardal Leadbrook Woods a'r dolydd o'i gwmpas. Rydym yn eich annog i beidio â dinistrio ein busnesau a'n bywoliaethau, a'r cefn gwlad rydyn ni'n ei garu, trwy gymeradwyo adeiladu priffordd pedair lôn newydd enfawr, a fyddai'n mynd yn syth trwy'r dirwedd hynafol a hardd hon yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru.

Y ffordd ddeuol enfawr hon yw'r cynllun priffyrdd newydd mwyaf o bell ffordd yng Nghymru gyfan. Fe fyddai'n dinistrio ardaloedd enfawr o'n ffermdir gwerthfawr, gan gynnwys fferm organig sydd wedi ennill gwobrau, yn torri ein busnesau yn eu hanner, tra eu bod nhw'n dal i ddioddef o bandemig COVID, yn dinistrio ein cartrefi a'n cymunedau ac yn achosi difrod anadferadwy i'n treftadaeth bywyd gwyllt a thirwedd. Byddai'n rhwygo trwy goetir hynafol a hen ddolydd llawn blodau, yn niweidio'r dirwedd hanesyddol hon, ac yn dinistrio daliadau fferm hyfyw.

Mae amcangyfrifon eich llywodraeth eich hun o'r costau wedi codi o £210 miliwn yn 2016, i £242 miliwn yn 2017 ac i £300 miliwn yn 2019, gan ddangos bod y costau allan o reolaeth, ar adeg pan mae economi Cymru mewn trafferth ar ôl pandemig COVID. Fe fyddai'r gost o oddeutu £23 000 y metr, fyddai'n gamddefnydd enfawr o arian, ar adeg pan ydym yn brin iawn o nyrsys, meddygon a chymorth amaethyddol yng Nghymru.

Mae eich llywodraeth pryderi am gynaliadwyedd, ac wrth reswm. Mae hi wedi pasio deddf arloesol yn ei chylch. Mae cynaliadwyedd yn golygu dod o hyd i atebion i broblemau fel tagfeydd traffig nad ydynt yn dinistrio'r amgylchedd, ac rydym yn eich annog i wneud hyn yn yr achos yma. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Ms Sophie Howe wedi mynegi pryder am y prosesau rydych chi wedi'u defnyddio i ddatblygu'r cynllun ffordd hwn (WelTAG).

Wrth nodi ar y 10fed Mehefin eleni yng nghyfarfod llawn Senedd Cymru, bod y llywodraeth yn "edrych ar yr adferiad tymor hwy o coronafirws mewn ffordd sy'n adeiladu economi decach, wyrddach a gwytnach", gwnaethoch nodi, yn gywir iawn, na fyddai pethau yr un fath mewn yng Nghymru ar ôl COVID, a bod rhaid i'r adferiad hwnnw fod yn wyrdd.

Ni fyddai dilyn y cynllun priffyrdd hwn yn ystyried y gostyngiad mawr tebygol mewn traffig oherwydd patrymau gwaith newidiol ar ôl y pandemig coronafirws, pan fydd llawer mwy yn gweithio gartref nag o'r blaen, er enghraifft. Ni fyddai'n cymryd i ystyriaeth y newidiadau mawr sydd ar droed ar y sîn ryngwladol o'r 1af Ionawr y flwyddyn nesaf, pan allai newid trefniadau masnach rhwng y DU ac Iwerddon arwain at ostyngiad pellach yn yr angen am ffordd ddeuol newydd enfawr yn yr ardal hon.

Mae'r cynnydd mewn allyriadau carbon a fyddai'n digwydd o ganlyniad i'r briffordd hon yn golygu nofio yn erbyn llanw barn y cyhoedd a pholisïau eich llywodraeth eich hun, mewn oes pan ydym i fod i gymryd camau difrifol ar bob lefel i osgoi newid trychinebus yn yr hinsawdd.

Rydym yn cydnabod bod problemau gyda thagfeydd yn yr ardal hon, ond rydym yr un mor hyderus y gellid mynd i'r afael â nhw heb adeiladu priffyrdd newydd enfawr, gan ddefnyddio atebion cynaliadwy dychmygus sy'n creu Cymru wytnach.

A wnewch chi ailystyried y mega-gynllun niweidiol hwn, a gadewch inni weithio gyda'n gilydd i greu Sir y Fflint a Chymru gynaliadwy a chynhyrchiol.

Yr eiddoch yn gywir,